**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA - P/VG/2155/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1 Awst 2017

Annwyl Lynne

Diolch ichi am y gwahoddiad i gwrdd â'r Pwyllgor ar 12 Gorffennaf fel rhan o'ch ymchwiliad i iechyd meddwl amenedigol. Roedd yna rai materion y cytunais i ysgrifennu atoch ynglŷn â hwy ar ôl y sesiwn.

**Casglu Data**

Mae Grŵp Llywio Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan (y Grŵp Llywio) wedi sefydlu is-grŵp Llwybrau a Chanlyniadau, sy'n cefnogi casglu data cyson. Fel y gwyddoch, mae rhai ffigurau ar gyfer nifer yr atgyfeiriadau eisoes yn cael eu casglu gan rai byrddau iechyd, ond bydd hyn yn cael ei fireinio. Rwy'n disgwyl i bob tîm iechyd meddwl amenedigol cymunedol gasglu'r data y cytunwyd arnynt yn y flwyddyn newydd, gyda data adrodd dibynadwy ar gael ym mis Mawrth 2018 yn unol â chynllun gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Mynediad i Therapïau Seicolegol**

Mae therapïau seicolegol ar gael i fenywod â salwch meddwl amenedigol mewn gofal iechyd meddwl sylfaenol ac eilaidd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu mesurau safonol cenedlaethol ar gyfer mynediad i therapïau seicolegol mwy arbenigol drwy Fwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru hefyd. Bydd disgwyl i fyrddau iechyd adrodd ar eu hamseroedd aros o fis Rhagfyr 2017 ymlaen. Rydym bellach yn ymchwilio i'r gallu i ddefnyddio'r ffynhonnell ddata hon i fesur mynediad i fenywod â phroblemau iechyd meddwl amenedigol gyda'r Grŵp Llywio a'r Gymuned Ymarfer.

**Goruchwylio seicolegwyr**

Trafodwyd hefyd y broses o oruchwylio gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl amenedigol arbenigol. Gan fod timau iechyd meddwl amenedigol cymunedol yn rhan o fyrddau iechyd, bydd hyfforddiant tymor hwy ac anghenion goruchwylio'r timau yn cael eu cefnogi gan Grŵp Llywio Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan. Mae'r Grŵp Llywio yn cynnwys is-grŵp sydd â'r gorchwyl o fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi. Mae hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o dîm cymunedol pob bwrdd iechyd, gyda seicolegwyr ymhlith ei aelodau. O

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ran yr angen am oruchwyliaeth o'r tu allan i Gymru, rwyf ar ddeall bod hyn yn cyfeirio at oruchwyliaeth hyfforddi, yn hytrach na goruchwyliaeth glinigol.

**Adolygiad Haen 4 Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC)**

Ar 25 o Orffennaf, cyflwynwyd papur i Gyd-bwyllgor PGIAC ynglŷn ag Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol Haen 4 yng Nghymru. Roedd y papur yn cynnwys rhestr fer gyda’r tri opsiwn canlynol i’r Cyd-bwyllgor i’w hystyried:

- Opsiwn 1: Gwasanaethau Iechyd Meddwl Amenedigol Haen 4 yn cael eu darparu trwy’r broses Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol gyda chontract sicredig
- Opsiwn 2: Sefydlu un Uned Mam a Babi ranbarthol i Gymru
- Opsiwn 3: Sefydlu Uned Mam a Babi ranbarthol yn Ne Cymru a chontractio gwasanaethau ar gyfer Gogledd Cymru o Loegr

Gweler y papur cyfan isod:

http://www.whssc.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1119/2017.07.25%20WHSSC%20Joint%20Committee%20papers%20%28Web%29.pdf

Rwyf ar ddeall bod y Cyd-bwyllgor wedi gofyn am ragor o wybodaeth cyn dod i benderfyniad. Mae fy swyddogion wrthi'n trafod gyda PGIAC i sicrhau bod y Cyd-bwyllgor mewn sefyllfa i wneud penderfyniad cyn gynted ag y bo modd.

**Ymchwil ar Iselder Ôl-enedigol**

Gofynnodd y Pwyllgor am unrhyw wybodaeth sydd gennym ar ymchwil sydd ar gael ar y cysylltiadau rhwng methu â bwydo ar y fron ac iselder ôl-enedigol. Mae *Breastfeeding and Postpartum Depression: An Overview and Methodological Recommendations for Future Research,* gan Pope a Mazmanian (2016), yn cynnwys safbwyntiau sy'n groes i'w gilydd. Mae rhywfaint o waith ymchwil sy'n dangos tystiolaeth o'r ffactorau amddiffynnol sy'n gysylltiedig â bwydo ar y fron ac eraill sy'n mynegi cynnydd mewn cyfraddau iselder os ceir canfyddiad o 'fethiant'. Nodir dau o'r papurau hyn isod:

http://lib.education.vnu.edu.vn/bitstream/DHGD/6782/1/Clinical137.pdf

https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC4842365/

Mae tudalennau Menter Cyfeillgar i Fabanod UNICEF hefyd yn cynnig ychydig o waith ymchwil diweddar ar gysylltiadau rhwng iechyd meddwl a chanlyniadau bwydo babanod:

https://www.unicef.org.uk/babyfriendly/news-and-research/baby-friendly-research/maternal-health-research/y fam-iechyd-ymchwil-iechyd meddwl /

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro tystiolaeth yn y maes hwn ond mae'n cydnabod ac yn blaenoriaethu manteision cyffredinol bwyd ar y fron i famau a babanod. Fel rhan o'r byrddau perfformiad blynyddol, mae Llywodraeth Cymru yn cael adborth gan fyrddau iechyd ar gyfraddau ac arferion bwydo ar y fron sydd ar waith i gefnogi mamau a theuluoedd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i fynd i'r afael â thwf sefydlog bwydo ar y fron yng Nghymru ac yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ymchwilio i arferion ar draws Cymru ac edrych ar gyfeiriad strategol. Mae'r ddau wedi ymrwymo i wella cyfraddau bwydo ar y fron a chymorth yng Nghymru a cheisio normaleiddio a hyrwyddo bwydo ar y fron drwy ei holl feysydd gwaith.

Yn unol â Galwad i Weithredu UNICEF UK, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu arweiniad strategol uwch i'r gwaith fel ffordd o gael mwy o effaith ac effaith fwy cynaliadwy drwy ddull o normaleiddio bwydo ar y fron drwy systemau. Mae hyn yn golygu symud i ffwrdd o ymyriadau sy'n canolbwyntio ar fwydo ar y fron fel cyfrifoldeb y fenyw i ddull mwy cymdeithasol er mwyn sicrhau gwelliant ar lefel y boblogaeth. Y nod yw peidio â rhoi pwysau ar fenywod i fwydo ar y fron, ond yn hytrach dileu rhwystrau ymarferol, emosiynol a diwylliannol sydd ar hyn o bryd yn atal menywod sydd am fwydo ar y fron rhag gwneud hynny.

Mae gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru Gydlynwyr Bwydo Babanod penodedig ac maent yn darparu cefnogaeth leol i famau a'u teuluoedd. Mae dros 100 o grwpiau bwydo ar y fron ledled Cymru sy'n cynnig cymorth yn lleol. Mae'r grwpiau cymorth yn darparu ffynhonnell ardderchog o anogaeth, cefnogaeth a gwybodaeth i famau neu fenywod beichiog sy'n bwydo ar y fron sy'n awyddus i gael mwy o wybodaeth. Mae gwefan Her Iechyd Cymru yn darparu gwybodaeth am Grwpiau Cymorth Bwydo ar y Fron ledled Cymru.

Yn unol â Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2016-19, mae'n ofynnol i fyrddau iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru sicrhau bod menywod yn cael cynnig gwybodaeth a chymorth da. Mae rhaglenni Llywodraeth Cymru megis Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Plentyn Iach Cymru, yn ogystal ag adnoddau megis Naw Mis a Mwy, yn helpu i gefnogi iechyd a lles cadarnhaol a hybu ymlyniad iach.

Diolch ichi unwaith eto am fy ngwahodd i gwrdd â'r Pwyllgor ac edrychaf ymlaen at ddarllen canfyddiadau'r eich ymchwiliad maes o law.

Yn gywir

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport